Awyrluniau
Porthmadog a Doc Penfro
gan Gwaith Maes

Gobeithio y bydd y lluniau hyn o'r ddau borthladd o fudd i athrawon daearyddiaeth a hanes. Isod, cewch fanylion y mapiau Arolwg Ordnans y bydd eu hangen arnoch i wneud defnydd llawn o'r lluniau. Nid yw'r cwestiynau sydd yn dilyn ond yn awgrymu sbardun cyfleus i gychwyn y gwaith.

Cyhoeddir y lluniau trwy ganiatâd a chydweithrediad Cyngor Brenhinol Henebion Cymru a dymunwn gydnabod eu cymorth gyda diolch.

MAPIAU AROLWG ORDNANS:

Llun 1	Porthmadog Landranger 124	1:50 000	Dolgellau	[Cyfeirnod 570385]
Llun 2	Doc Penfro Landranger 157	1:50 000	Tŷ Ddewi a Hwlffordd	[Cyfeirnod 959040]

Llun 1

Hawlfraint y Goron: CBHC

Llun 2

Hawlfraint y Goron: CBHC

1. Pa wahaniaeth sydd rhwng y mathau o longau sydd i'w gweld yn y ddau lun? Beth mae hyn yn ei ddweud am swyddogaeth y ddau borthladd?

2. Beth sydd yn gwneud y ddau le yn ddelfrydol fel harbwr?

3. Pa nodweddion tirlun y ddau le sydd yn naturiol a pha rai sydd yn waith llaw dyn?

4. Pa ddiwydiant fu'n gyfrifol am dwf Porthmadog ? (Byddai astudio mapiau 1:25 000 neu hen fapiau tua 1925 o'r cyffiniau o fudd i olrhain llwybrau hen reilffyrdd.)

5. Beth yw mantais safle Doc Penfro o safbwynt masnach?